

# CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Mehefin 4, 2019 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Delwyn Evans - Maer  
Y Cynghorydd Nia Williams - Dirprwy Faer  
Cynghorwyr John Cadwaladr; John Raghoobar; Jo Checkley; Ray Stubbs;  
Dyfrig Siencyn; Ywain Myfyr; Bob Gunton; Branwen Rhys Dafydd a Sion Edwards

Mr Rhys Williams – Clerc

**C17.2019/2020 YMDDIHEURIADAU**  
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Heilyn Williams a Linda Morgan.

**C18.2019/2020 DATGANIADAU O DDIDDORDEB PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD**  
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau

**C19.2019/2020 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR MAI 7, 2019, A CHYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWDYD AR MAI 14, 2019**

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod yn amodol gyda'r newidiadau canlynol:

i) C10.2019/2020 Datganiadau o ddiddordeb personol:

Enw	Eitem	Rheswm
John Raghoobar	NP5/57/930A	Aelod teuluol yn gweithio yn yr adeilad

ii) C14.2019/2020.2b) Adroddiad y Cynghorydd Dyfrig Siencyn  
Cyfarfod o Swyddfa Cymru (nid Fforwm Wledig Cymru)

**C20.2019/2020 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

- C12.2019/2020.1 Cyfyngiad Cyflymdra 20 m.y.a.**  
**Cyflwynwyd:** Adborth gan y Cynghorydd John Cadwaladr bod Coleg Meirion Dwyfor mewn trafodaethau gyda Cyngor Gwynedd ar y mater yma ar hyn o bryd.  
**Penderfynwyd:** Cadw golwg ar y mater.
- C12.2019/2020.4 Cofeb Llyn Penmaen**  
**Cyflwynwyd:** Adborth oddi wrth y Cynghorydd Jo Checkley yn egluro pan mae gwasanaeth / digwyddiad pellach yn cael ei drefnu i gyflwyno unrhyw gofeb newydd, bydd:
  - Pont Llyn Penmaen yn cael ei gau am gyfnod y gwasanaeth.
  - Bydd gwesty Siarl y Trydydd yn darparu lluniaeth ysgafn**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth gyda diolch.
- C6.2019/2020 Cyfarfod Blynyddol – Trefniadau ar gyfer Is-bwyllgorau penodol o'r Cyngor.**  
Yn dilyn trafodaeth ar y materion, cytunwyd gyda'r trefniadau canlynol:
  - Gweithgor y Llyfrgell Rydd - i gyfarfod unwaith mae cynlluniau diwygiedig ar gyfer gwaith mewnol i sefydlu lifft ac at ar gael gan y Pensaer, Rhys Davies.
  - Is-bwyllgor Prosiectau – i gyfarfod ar 11/6/19 am 7 o'r gloch yn y Llyfrgell Rhydd. Blaenoriaeth 1 i fod trefniadau goleuadau Nadolig

2019/2020. Y Clerc i geisio dderbyn manylion cyswllt y trydanwr mae Cyngor Abermaw yn ddefnyddio.

**C21.2019/2020**

**SEFYLLFA ARIANNOL AC ADBORTH O ARCHWILIAD MEWNOL 2018/2019 Y CYNGOR**

Derbyniwyd y sefyllfa ariannol gan y Clerc a derbyniwyd a chadarnhawyd canlyniadau yr archwiliad mewnol uchod oddi wrth Uned Archwilio Cyngor Gwynedd. Diolchodd y Clerc am waith y Swyddog Archwilio eleni.

**C22.2019/2020**

**SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU**

**1. Adroddiadau Aelodau'r Cyngor Tref**

- a) **Y Cynghorydd John Cadwaladr** - cyfarfod heno o Gyngor Coleg Meirion Dwyfor. Cais am gyfyngiad 20 m.y.a. yn derbyn sylw.
- b) **Y Cynghorydd John Raghoobar** – gwaith paratoi yn mynd yn ei flaen ar gyfer gwaith addasu wal y Parc can CNC. Gordyfiant ger Mervinian House angen sylw.  
**Penderfynwyd:** I'r Clerc holi pwy sy'n gyfrifol
- c) **Y Cynghorydd Bob Gunton** – defnydd o wefan Cymraeg y Cyngor yn cynyddu ar hyn o bryd.
- ch) **Y Cynghorydd Ray Stubbs** – cyfarfod diweddar o Grŵp Mynediad Meirionnydd yn Abergynolwyn. Prosiect cerbyd gyrru trydanol yn derbyn sylw.
- d) **Y Cynghorydd Jo Checkley** – llawer o siarad lleol am dderbyn £10 mil o grant ar gyfer cyfnewidfa bus newydd.  
**Penderfynwyd:** I'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn ddarganfod fwy o wybodaeth ar hyn.  
  
Gwaith y Bartneriaeth Cynllun THI yn mynd yn dda. Trydydd llyfr hanesyddol am y dref yn cael ei gynllunio.  
A yw Cyngor Gwynedd yn edrych ar ddarpariaeth o bwytiau chargio trydanol i'r ardal ar gyfer cerbydau trydanol? Cadarnhawyd y bod Cyngor Gwynedd bellach yn edrych i mewn i hyn.  
Mynychwyd cyfarfod blynyddol Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru - gydag anerchiad gan Swyddog o CCG. Cadarnhawyd y byddent yn ymgeisio i wneud fwy o ddefnydd o adeiladwyr lleol i'r dyfodol.  
Eglurwyd y bod y cyn Cynghorydd Mr Ali yn cynnig £1,000 ar gyfer 2 x set gyhoeddus newydd.  
**Penderfynwyd:** Derbyn y cynnig gyda diolch. Lleoliadau i'w trafod.
- dd) **Y Cynghorydd Sion Edwards** – cystadleuaeth Darts diweddar a gwaith paratoi ar gyfer Sesiwn Fawr 2019.
- e) **Y Cynghorydd Ywain Myfyr** - y Grŵp Treftadaeth Gwlân am gyfarfod awdur taflen 'O wllân i sigwr' yn y dyfodol agos. Gwydrau plastic aml ddefnydd nawr am gae eu defnyddio yn y Sesiwn Fawr eleni i leihau'r cyfanswm sbwriel plastic.
- f) **Y Cynghorydd Branwen Rhys Dafydd** - cyfarfod o weithgor y Llyfrgell Rydd.

Derbyniwyd yr adroddiadau gyda diolch.

## **2. Adroddiadau Cynghorwyr Gwynedd lleol**

### **a) Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn.**

Nawr yn Gadeirydd Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru  
Digwyddiad diweddar o 'wythnos Busnes Gwynedd'  
Cyfarfod diweddar gyda'r Comisiynydd Iaith  
Cyfarfod diweddar o Is-bwyllgor Cyllid Cymdeithas Llywodraeth Leol  
Cymru – nodwyd perthynas gwell erbyn hyn gyda Llywodraeth  
Cymru.

Rhagolygon cyllidol ddim yn dda fodd bynnag gan na fydd adolygu  
gwariant yn digwydd tan mae Brexit wedi'i ddatrys.

Cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd heddiw, pryd cadarnhawyd cyllid  
pellach i'r dyfodol ar gyfer Gwasanaethau Cefnogi / Gofalu am  
dementia.

Cynllun Trawsnewid Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol hefyd ar  
y gweill.

## **C23.2019/2020 GOHEBIAETH**

1. Cais Trwyddedu 'Gwyndy' Heol y Bont.
2. Rhaglen Waith Mehefin 2019 – Gwasanaeth Priffyrdd.
3. Parc Cenedlaethol Eryri – ymgynghoriad cyhoeddus – canllaw  
cynllunio Atodol Drafft – Llety Ymwelwyr.